CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 26ain MEDI 2017.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr W Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Ian Owen, Mr Mike Jones, Mr Einion Parry Williams, Mr John Pritchard a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

YMDDIHEURIAD:
Cyng Mr Cynrig Jones & Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

1 CROESO, DIOLCHIADAU & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod llawn cyntaf gan y Cadeirydd.

1.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol** – nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb.

2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad byr ar lafar gan y Cynghorydd Sirol, Mr Dafydd Roberts.

3.1 Adroddiad fod Cynllun Datblygu Leol ar y Cyd (Gwynedd & Ynys Mon) newydd wedi ei fabwysiadu.

3.2 Adroddiad fod y Cyngor Sir wedi dechrau trafod cyllideb 2018-2019 ac mae yn rhagweld y bydd toriadau bellach y flwyddyn nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad.

3 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (25ain Gorffennaf 2017).

4.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 25ain Gorffennaf 2017 yn gywir. (DH//LJ).

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

4.1 **Peiriant Diffribiliwr** – cytunwyd ymestyn gwahoddiad i Llinos Davies i'r cyfarfod nesaf er mwyn sesiwn hyfforddiant byr at sut I ddefnyddio'r uned/peiriant diffribiliwr.

Arwyddo.....

5 MATERION CAEAU CHWARAE.

5.1 Arwyddion y Caeau Chwarae – adroddiad fod yr arwyddion wedi ei gosod.

5.2 Gwaith Cynnal a Chadw – Gofeb, Gardd Mileniwm & Cae Chwarae Gaerwen Uchaf – penderfynwyd trafod yn bellach yn y cyfarfod nesaf.

5.3 Lleoliad yr Hysbysfwrdd – adroddiad fod yr hysbysffwrdd wedi ei gosod. Cyntunwyd y dylai Cyng Ian Owen cadw'r goriadau i'r hysbysffwrdd.

5.4 Biniau Sgwar Cae Mawr / Gaerwen Uchaf – penderfynwyd cynnal y pris o gasglu'r sbwriel o fewn y pris tendro/cytundeb o dorri'r caeau chwarae.

5.5 Lles Caeau Chwarae Cae Mawr & Gaerwen Uchaf.

5.5.1 Nodwyd fod y Cymdeithas Hamdden yn gyfrifol am lles y caeau chwarae ar hyn o bryd gyda'r Cyngor Cymuned sydd yn dod i ben yn Mis Ionawr 2022.

5.5.2 Nodwyd nifer o aelodau sydd bellach ar bwyllgor y Cymdeithas Hamdden ac ei fod yn gwneud synnwyr nad oedd angen Is-Bwyllgor yn rhagor.

5.5.3 Cynnigiwyd (IO) and eiliwyd (BM) fod y Cyngor Cymdeithas yn ail-ymgymeryd y cyfrifoldeb o cynnal a chadw'r offer, trefnu archwiliad blynyddol a trosglwyddo polisi yswiriant I sylw'r Cyngor.

5.6 Cloddiau Gaerwen Uchaf – roedd Cyng Ian Owen am drefnu pris cyn symud ymlaen.

6 MATERION LLWYBRAU.

6.1 Llwybr yr Ynys – nodwyd fod y gwaith yma mewn llaw.

6.2 Llwybr 16 – dywedodd Cyng John Pritchard fod angen sylw gwella gwyneb ar hyn darn o'r llwybr. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir.

6.3 Mapiau Llwybrau Cyhoeddus – roedd y Clerc wedi dosbarthu gopi o'r mapiau i pob aelod. Diolchwyd i Mr Ted Thomas yn y fan yma.

7 MATERION PRIFFYRDD.

7.1 Problemau Traffig ar hyd darn Lon Groes – copi ymateb y Cyngor Sir wedi ei nodi. Penderfynwyd cadw golwg ar y sefyllfa ac ail godi'r mater os bydd angen.

7.2 **Arwydd Cyflymdra Lon Pentre Berw i Langaffo** – ymateb y Cyngor Sir wedi nodi a mewn llaw.

7.3 Parcio ger Ty Gwyn – Lon Groes – nodwyd ymateb y Cyngor Sir yn awgrymu cysylltu gyda'r Post Brenhinol er mwyn ail-leoli'r blwch postio.

7.4 Lon Ceint – nodwyd ymateb y Cyngor Sir.

7.5 **Mynedfa Parc Gwyddoniaeth** – nodwyd fod yr arwydd bellach wedi atgyweirio.

7.6 H**en Safle Little Chef – nodwyd ymateb y Cyngor Sir.**

7.7 **Yr A5 ger Maes Hyfryd, Gaerwen –** nodwyd ymateb y Cyngor Sir i cwyn cerbydau yn gor-yrru.

7.8 **Safle Gofeb Gaerwen** – dywedodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb oddiwrth y Cyngor Sir ac ei fod wedi anfon ebost bellach yn ystod y dyddiau diwethaf. Os na chaiff ymateb erbyn y cyfarfod nesaf, roedd am basio'r gwybodaeth ymlaen i'r Cynghorydd Sirol.
CYTUNWYD GYDA'R TREFN YMA.

7.9 Gordyfiant gyferbyn mynedfa Stad Ceris – roedd y Clerc wedi anfon llythyr i'r Cyngor Sir yn dwyn sylw i'r fater.

7.10 Stryd & Theras y Capel, Gaerwen – yn dilyn llythyr 5/12/2016, roedd y Clerc wedi anfon llythyr i'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt rhannu gwybodaeth pryderon gor-yrru a cyfyngu pwysau ar hyd y Teras gan ei fod heb dderbyn unrhyw ymgynghoriad a bwriedir.

7.11 Cyflwr Palmant Gyferbyn Mynedfa Stermat – nodwyd fod angen anfon llythyr i'r Cyngor Sir yn dangos pryder ac fod angen sylw cyn gynted a phosib.

7.12 Siop McColls, Lon Groes – nodwyd fod tyllau wedi dechrau dangos tu allan i'r siop ac fod angen sylw brys arnynt.

7.13 Gorchymyn (Gwaharddiad Traffig Trwodd Dros Dro) (Lon Colliar, Pentre Berw) – nodwyd y daeth y gorchymyn i rym ar y 4ydd Medi ac disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith ar y 13eg Hydref.

8. CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Llawn Lledu Mynedfa presennol dros dro ar dir ger:
LLEOLIAD – Lewis Site Compund, Pentre Berw, Gaerwen (Rhif Cais - 33C316).
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

8.2 Cais Rhyddhau Amodau (10), (11), & (12) oddiwrth ganiatad cynllunio 33C152C:
LLEOLIAD – Old School Room, Pentre Berw, Gaerwen (Rhif Cais – 33C152E/DIS).
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

8.3 Cais Adran 73 - Diwygio Amod (02) oddiwrth caniatad cynllunio 33C295C/VAR:
LLEOLIAD – 4 Nant y Gors, Pentre Berw, Gaerwen – (Rhif Cais – 33C295E/VAR).
Penderfyniad : DIM SYLWADAU.

Arwyddo.....

9. PENDERFYNIADAU CEISIADAU CYNLLUNIO.

9.1 Cais Llawn – Tros y Marian, Lon Groes, Gaerwen – 33C315 – CANIATAD.
9.2 Cais Llawn – 144 Gaerwen Uchaf, Gaerwen – 33C1X/2 – CANIATAD.
9.3 Cais ol-weithredol – Penrhyn Bach, Pentre Berw – 33C237B – CANIATAD.
9.4 Cais Adran 73 Diwygio Amod (03) o ganiatad cynllunio 33C190 er mwyn cael defnyddio hen fynedfa cerbydol gwreiddiol – Chwarel Bwlch Gwyn, Gaerwen – 33C190Q/VAR – CANIATAD.

10. MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

10.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Gorffennaf & Awst 2017 yn cynnwys cysoniad a datganiad y banc.

10.2 **Taliadau Mis Medi 2017.**

Rhif Siec.	Taler		Disgrifiad	Swm
201252 -	The Sign Factory	-	Arwyddion Cae Chwarae	£318.00
201253 -	Un Llais Cymru	-	Cynhadledd 2017.	£80.00
201254 -	Cyngor Sir Ynys Mon	-	Rhent Hen Ysgol	£1.00
201255 -	Un Llais Cymru	-	Hyfforddiant	£160.00
201256 -	J Alun Foulkes	-	Cyflog (Ebrill-Medi 2017)	£1,440.00
201257 -	Mr Dafydd Hughes	-	Torri Caeau Chwarae	£550.00

11 GOHEBIAETH.

11.1 Rhybudd cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon – Un Llais Cymru – 5ed Hydref 2017.

11.2 Dogfen Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd & Môn (2011-2026).

11.3 Blaenraglen Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir – Hydref 2017 > Mai 2018.

11.4 Pwyllgor Safonau y Cyngor Sir – roedd y Cyngor Sir yn gofyn i'r Cynghorau Cymunedol am DDAU gynrychiolydd – penderfynwyd enwebu Cyng John Chorlton o Gaergybi a Cyng Stan Zalot o Fiwmares.

12 ADRODDIADAU

12.1 **Pwyllgor Canolfan Hamdden** – cafwyd adroddiad cryno oddiwrth Cyng Ian Owen fod angen aelodau newydd ac fod angen gwaith cynnal a chadw er mwyn datrys tamprwydd ac yn y blaen. Dywedodd fod sefyllfa ariannol yn iach ac fod sustem archebu electronig wedi ei sefydlu yn dilyn salwch i'r gofalwraig, Carys Davies ac fe ddymunwyd yr aelodau gwellhad buan iddi.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 24ain HYDREF 2017.

13.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:15yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.